# CORRESPONDENCE FILE 1
# (Page 1 – 5)

## Place Plan Meeting

## 22 Mehefin / June 2023

__Adroddiad Chwarter 1 a 2__ ***(adroddiad chwarter 3 a 4 isod, o dudalen 5 ymlaen)***

**Pwyllgor Ardal Abergele**

**Cyfarfodydd**

Yn ystod chwarter 1 a 2, llwyddodd y Pwyllgor i gyfarfod ar 26.04.22 a'r 12.07.22. Braf oedd gweld 8 yn mynychu'r cyfarfod cyntaf - rhain i gyd yn awyddus i weld mwy o ddigwyddiadau Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr ardal a cafwyd cyfle i rannu syniadau. Yn dilyn trafodaeth yn ystod y cyfarfod hwnnw, llwyddwyd i fynd ati i drefnu noson yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys yn y Clwb Golff a hefyd sefydlodd un o aelodau'r pwyllgor grŵp cymunedol Cymraeg ar Facebook er mwyn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg yn yr ardal a chyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yr ardal i ddod i adnabod ei gilydd yn well. Oherwydd prysurdeb yr haf, penderfynwyd peidio cynnal unrhyw beth dros yr haf, ond maent yn awyddus i gynnal mwy yn yr hydref a'r gaeaf megis nosweithiau cwis a gigiau cerddorol

**Sesiynau Cychwynnol Creu Conwy**

Cafodd y Fenter wahoddiad i fynychu sesiynau i ddechrau'r sgwrs am Strategaeth Diwylliant Creu Conwy. Gweledigaeth Creu Conwy ydy bod 'diwylliant yn creu'r sbardun ar gyfer twf economaidd, lles a chysylltiad'. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen cynnwys pobl a sefydliadau lleol. Diben y sesiynau cychwynnol hyn oedd rhannu'r hyn sy'n digwydd ar lefel sirol a chreu darlun diwylliannol o'r gymuned a'r bobl leol, y rhaglen a'r lle. Mynychodd y Fenter y sesiynau y Abergele (26.07.22). Yn ystod y sesiynau Llanrwst ac Anbergele cafodd swyddogion y Fenter wneud cyflwyniad PechaKucha am waith y Fenter.

**Gwyl Hwyl yr Haf**

Trefnwyd cyfres o Ddiwrnodau Hwyl mewn amryw o leoliadau ar hyd y Sir yn ystod gwyliau'r haf i blant oedran cynradd ar y cyd ag Urdd Conwy. Cyfle i'r plant fwynhau diwrnod o gymdeithasu a chwarae trwy'r Gymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol. Cynhaliwyd un yn Abergele, 18.08.22 - mynychodd 27 a plant.

**Gwersi Cymraeg**

Rydym wedi bod yn cydlynu efo Dysgu Cymraeg i cynnal cwrs Cymraeg yn y dref. Mae wedi cychwyn ar y 16/10/22 yng Nghanolfan Dewi Sant. Mae nifer o'r Cyngor yn mynychu;

Cllr. Charlie McCoubrey
Cllr. Ann Williamson
Cllr. Alan Hunter
Cllr. Maria Davies
Fiona Taggart
Cllr. Andrew Wood

**Gig Gwilym Bowen Rhys, Clwb Golff Abergele, 01.07.22**

Cf1 pg1

Bu'r Fenter yn helpu Pwyllgor Ardal Abergele i drefnu noson yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys draw yng Nghlwb Golff Abergele. Cafwyd noson wych yng nghwmni'r canwr gyda chymysgedd o siaradwyr rhugl, dysgwyr a di- Gymraeg yn bresennol. Roedd yr adborth ar y cyfryngau cymdeithasol yn hynod gadarnhaol a phawb yn awyddus i weld mwy o ddigwyddiadau tebyg yn cael eu cynnal yn yr ardal. Mynychodd 37 y digwyddiad a dyma adborth a gafwyd:

*"Mi ges i noson ardderchog heno. Cerddoriaeth @GwilymBowenRhys ac wedyn wydrad neu dau efo ffrindiau Cymraeg newydd yn cynnwys @DrDylanParry Diolch i bawb sy wedi cyfnogu'r digwyddiad yn @AbergeleGolf a diolch o galon i @MIConwy am wneud yr trefniadau. Dw i'n hapus iawn heno."*

*"Noson grêt Neville. Roedd @GwilymBowenRhys yn wych, yn enwedig gyda'r eglurhad diddorol am gefndir y caneuon cyn iddo eu canu."*

*"Mi gefais noson wych hefyd. Roedd Gwilym yn eithriadol o dda, a neis cael diod neu ddau gyda ffrindiau wedyn. Diolch."*

*"Sgwrs ar ôl y cyngherdd heno. Diolch @GwilymBowenRhys, Y cyngherdd oedd gwych ac y sgwrs hefyd.*

*"Diolch Neville ac Anna hefyd - noson llwyddiannus a plesurus iawn."*

*"Roedd noson ardderchog heno yn Abergele Golf Club. Cerddoriaeth gan Gwilym Bowen Rhys a chyfleoedd i ymarfer siarad Cymraeg efo pobl cefnogol. Roedd profiad anhygoel. Diolch o galon i bawb a ddaeth. A diolch i Menter Iaith Conwy am wneud y trefniadau.*

*It was an excellent night tonight at Abergele Golf Club. Music by Gwilym Bowen Rhys and opportunities to practice speaking Welsh with supportive people. It was an amazing experience. Thank you from the bottom of my heart to everyone who came. And thanks to Menter Iaith Conwy for making the arrangements."*

*"Brilliant evening. Hopefully it can be done again in the future. As non Welsh speakers I have to say my wife and I really enjoyed the evening and I would encourage anyone regardless of their Welsh speaking abilities to come along to any future events."*

*Cytuno'n llwyr, roedd yn noson wych. Roedd Gwilym Bowen Rhys yn arbening o dda. I'm glad you and your wife enjoyed the evening Alan Hunter and fair play to Gwilym for introducing the songs bilingually. I felt his introductions added to the evening, as much was learned from these interesting snippets. Looking forward to the next evening at Abergele, organised by Menter Iaith Conwy.*

**Aelwyd Abergele**

Rydym wedi methu ei sefydlu er i ni drio ei gynnal 3 gwaith. Byddwn yn edrych ar sefydlu clwb antur i bobl ifanc yn lleol.

Cf1 p92

**Survey Monkey**

Rhannwyd holiaduron gyda'r gymuned a da nodi ein bod wedi cael 53 o ymatebion gan bobl leol. Yn ogystal, rhannwyd holiaduron gyda 111 o ddisgyblion cynradd Ysgol Glan Morfa yn amrywio o 7-11 oed a 19 disgybl ysgol uwchradd sy'n mynychu Ysgol Creuddyn. O'r ymatebion gan ddisgyblion yr ardal, ychydig iawn oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg tu allan i'r ysgol ac o'r rhai oedd yn mynychu gweithgareddau roeddent yn weithgareddau cyfrwng Saesneg.

O ran y math o ddigwyddiadau roedd y rhai a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn awyddus i weld amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal yn lleol gyda mwyafrif eisiau gweithgareddau awyr agored. Yn ogystal, maent hefyd eisiau gweld gweithgareddau hwyliog i deuluoedd, mwy o nosweithiau cymdeithasol i oedolion, sioeau a pherfformiadau a gwyliau cerddorol. Roedd hefyd nifer fawr yn awyddus i gael digwyddiadau a fyddai'n apelio at ddysgwyr. Dyma'r tablau;

I bwy sydd angen mwy o weithgareddau

I'r teulu cyfan (33)
I rai 11 - 18 oed (25)
I rai 19-25 oed (15)
Oedolion (29)
Dysgwyr (26)
Sesiynau rhieni a babi (12)
Diwrnod hwyl i'r teulu (26)
Celf a Chrefft (20)
Gweithdai Cerddorol (14)
Chwaraeon (20)
Gweithgareddau Awyr Agored (28)
Gŵyl Gerddoriaeth (24)
Nosweithiau Comedi (23)
Nodweithiau i Oedolion (24)
Sioeau a Pherfformiadau (24)

Dyma'r dolenni i'r holiaduron gwahanol fel rhan o'r gwaith ymgynghorol yma:

Cyffredinol (Cyhoedd):
https://www.surveymonkey.co.uk/r/LDK6WTV

Disgyblion:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/3B5GMHT

Cf1 pg3

--

**Adroddiad Chwarter 3 a 4**

**Pwyllgor Ardal Abergele**

**Cyfarfodydd**

Yn ystod chwarter 3 a 4 bu i'r pwyllgor gyfarfod bedair gwaith, ar 30.11.22, 9.1.23, 21.3.23 a 16.5.23.
Roedd 6 yn bresennol yn yr un cyntaf (yn y Clwb Golff) - dyma gyfarfod cyntaf y swyddog newydd, Eryl, gyda'r criw. Trafodwyd ffyrdd o wella hysbysebu digwyddiadau, penderfynwyd fynd ati i drefnu noson gomedi yn Ebrill a noson gwis misol o Chwefror ymlaen, ynghyd â hel rhagor o syniadau tymor hirach.
Dim ond 4 ymunodd â'r ail gyfarfod dros Zoom - yno cadarnhawyd trefniadau'r noson gomedi a'r noson gwis cyntaf.
Daeth 5 i'r cyfarfod mis Mawrth yn nhafarn y Bull (cyn y cwis) - trafodwyd rolau'r aelodau ar y noson gomedi 14.4, yna cadarnhau dyddiadau'r cwisys nesaf a hel syniadau ar gyfer digwyddiadau nes ymlaen yn y flwyddyn.
Yn nghyfarfod mis Mai (6 yno), cynllunwyd 'Cwis Mawr' ar gyfer Mehefin 20fed (rhan o gyfres Mentrau laith Cymru), yna trafodwyd rhagor o syniadau digwyddiadau ar gyfer yr haf a'r hydref, megis noson côr yn y Bull, denu cwmniau theatr teithiol i leoliadau yn yr ardal, gig neu noson glasurol, ymgysylltu efo'r ysgolion cynradd lleol, Ysgol Emrys ap Iwan a'r gwasananeth ieuenctid er mwyn trefnu digwyddiad i'r ieuenctid, a mwy!

**Cwis dwyieithog misol 21/2/23, 21/3/23, 16/5/23, 20/6/23***

Bu'r Fenter yn helpu Pwyllgor Ardal Abergele i drefnu cyfres o nosweithiau cwis dwyieithog yng Ngwesty'r Bull. Trefnwyd i Arwel Roberts (cynghorydd o Rhuddlan a wyneb amlwg yn niwylliant Cymraeg yr ardal) fod yn gwisfeistr. Gweinyddodd aelodau'r pwyllgor raffl (gan hel gwobrau gan fusnesau lleol) ar y noson. Daeth 36 o bobl i'r un cyntaf, sef 6 o dimau - cymysg o siaradwyr rhugl, dysgwyr a phobl nad oeddent yn medru'r iaith.

Eryl o Fenter laith Conwy oedd cwisfeistr yr ail gwis, eto trefnodd y pwyllgor wobrau cwis a gwobrau raffl. Daeth 22 o bobl (5 tîm).

Arwel Roberts oedd wrth y llyw eto ar gyfer cwis mis Mai, a'r pwyllgor yn cyflawni'r un dyletswyddau ag arfer (gwobrau, raffl ac ati). 19 o bob daeth y tro hwn (4 tîm).

Er fod y nosweithiau i gyd wedi bod yn llwyddianus, a phobl wedi mwynhau, gwelwyd fod y niferoedd wedi gostwng ychydig ac felly bachwyd ar y cyfle i gynnal 'Cwis Mawr' Mentrau laith Cymru yn y Bull fel ein cwis dwyieithog mis Mehefin (20.6.23). Yma bydd y gwesty yn darparu buffet, a Dylan Jones o Radio Cymru yn cyfrannu fel cwisfeistr y noson.

*"Wedi mwynhau yn arw - criw da yma. Edrych ymlaen at fynychu rhai y dyfodol"*

*"Diolch Menter laith - noson dda a hwyliog. Wedi teithio o Benmaenmawr, ddoi tro nesaf hefyd!"*

CF1 p94

*"Thoroughly enjoyed the evening, very useful that it was bilingual but I did end up trying to work out the Welsh versions of the questions and learnt a few things in the process!"*

**Noson gomedi 14/4/23**

Gyda chymorth Menter Iaith, trefnodd y pwyllgor noson gomedi hynod lwyddiannus yng Nghlwb Golff Abergele ar 14.4.23; Y Tri Digri (Dilwyn Pierce, John Sellers a Glyn Owens) a Hywel Pitts oedd yn diddanu. Gwerthwyd pob tocyn (80).
Llwyddodd aelodau'r pwyllgor ddenu cyfraniadau - o ran gwobrau - gan nifer o gwmniau mawr a bach lleol ar gyfer raffl fawr.

*"Noson wych, diolch Menter Iaith!"*

*"Am noson dda yng nghlwb golff Abergele neithiwr. Y Tri Digri'n ffantastig"*

*"Braf iawn gweld digwyddiadau fel hyn yn Abergele, mae angen mwy!"*

*"Llond bol o chwerthin - Hywel Pitts yn enwedig! Noson gret"*

**Gwyl Hwyl Abergele 15/8/23**

Trefnwyd cyfres o Ddiwrnodau Hwyl mewn amryw o leoliadau ar hyd y Sir yn ystod gwyliau'r haf i blant oedran cynradd ar y cyd ag Urdd Conwy. Cyfle i'r plant fwynhau diwrnod o gymdeithasu a chwarae trwy'r Gymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol.
Bydd un yn Ysgol Glan Morfa, Abergele, yn cael ei gynnal ar 15.8.23.